# COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE DYDD MERCHER, 22 GORFFENNAF 2020, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett | MC Clarke |
| N Clarke | RJ Collins | HJ David | P Davies |
| PA Davies | SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie |
| T Giffard | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| A Hussain | RM James | B Jones | M Jones |
| MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy |
| D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe |
| KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw | CE Smith |
| SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman | G Thomas |
| T Thomas | E Venables | SR Vidal | MC Voisey |
| LM Walters | KJ Watts | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JH Tildesley MBE

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

## 418. DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 419. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Y byddai Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor ar 26 Chwefror ac 11 Mawrth 2020 yn cael eu cymeradwyo'n gofnod gwir a chywir.

## 420. I DDERBYN CYHOEDDIADAU ODDI WRTH Y MAER

Diolchodd y Maer yn ddiffuant i holl staff CBS Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi mynd i'r afael â'r heriau a wynebwyd yn ystod y pedwar mis diwethaf. Roedd staff ar draws pob adran wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i redeg yn rhwydd ac yn llwyddiannus i breswylwyr. Roedd staff wedi addasu'n gyflym iawn i amgylcheddau gwaith newydd a gwahanol, a gwnaethant arloesi mewn meysydd lle'r oedd angen ymateb cyflym, gan weithio y tu hwnt i'r galw am gyfnod estynedig wrth

wynebu eu heriau eu hunain yn sgil y pandemig. Mae eu hymroddiad a'u gwaith caled yn gymeradwy.

Cyhoeddodd y Maer hefyd ei fod wedi addasu i ffordd newydd o weithio ac wedi mynychu ymrwymiadau drwy Skype, ac y bydd yn parhau i wneud hynny. Roedd yn fraint ganddo roi negeseuon fideo ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr i ddathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop a choffáu dioddefwyr yr hil-laddiad yn Srebrenica. Er gwaethaf y sefyllfa gyfredol, roedd yn teimlo ei bod yn bwysig parhau i ddathlu digwyddiadau pwysig a chofio'r bobl yr effeithiwyd arnynt.

Cyhoeddodd y Maer â thristwch y bu farw'r cyn Faer a Chynghorydd, Reg Jenkins, a oedd wedi gwasanaethu'n aelod o'r Cyngor am ddau gyfnod cyn ymddiswyddo i fwynhau ei ymddeoliad yn 2017. Roedd nid yn unig yn aelod ward gweithgar dros ben ar gyfer Pontycymer, ond hefyd yn enwog am ei dasg flynyddol fel Siôn Corn, gan godi miloedd o bunnoedd ar gyfer elusennau lleol. Ar ran y Cyngor, ymestynnodd gydymdeimlad y Cyngor at ei wraig, Teresa.

421. I DDERBYN CYHOEDDIADAU ODDI WRTH YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd yr Arweinydd mai nod y Cyngor oedd ail-agor mannau chwarae i blant erbyn 30 Gorffennaf. Crybwyllodd na ellir agor pob safle ar unwaith, oherwydd bod rhaid cynnal asesiad risg priodol ac archwilio pob safle er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio, nad yw'r offer chwarae wedi'i ddifrodi na'i fandaleiddio, ac y gallwn gymryd yr holl ragofalon angenrheidiol i gyfyngu'r potensial o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Er mwyn bodloni hyn, rhaid cyflwyno arwyddion newydd i gynghori pobl ar y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol a defnyddio hylif diheintio dwylo yn y man chwarae, a mwy.

Cyhoeddodd hefyd fod y canfasio etholiadol blynyddol yn mynd rhagddo, a bod y Cyngor yn annog cymaint â phosibl o breswylwyr cymwys i lenwi eu cofrestriadau ar-lein, fel rhan o'r ymdrechion i gyfyngu ar ledu'r coronafeirws. Rhoddodd wybod i'r Cyngor, ar ôl i Aelodau'r Senedd basio'r Bil ym mis Tachwedd y llynedd, y gall pobl ifanc 14 a 15 oed gofrestru ymlaen llaw er mwyn iddynt allu pleidleisio'n 16 oed. Roedd yn gobeithio y bydd Aelodau'n annog preswylwyr lleol i gyflawni'r canfasio yn ôl yr angen, ac mae'r tudalennau etholiadol ar wefan y Cyngor yn cynnwys mwy o fanylion am sut y gallant wneud hynny.

Cyhoeddodd yr Arweinydd hefyd, drwy gydol y pandemig, y bu'r Cyngor yn ymgymryd ag ystod o fentrau a luniwyd i helpu clybiau chwaraeon lleol. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Cronfa Cymorth Chwaraeon Pen-y-bont ar Ogwr i roi grantiau o hyd at £1,000 i glybiau. Gwnaed penderfyniad yn ddiweddar i hepgor ffioedd ar gyfer tymor 2019-20 a rhoi cefnogaeth barhaus i glybiau sydd eisoes yn datblygu'r broses trosglwyddo asedau cymunedol. Sicrhawyd bod mwy o gymorth ar gael drwy Gronfa Cymru Actif Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn galluogi clybiau i wneud cais am grantiau rhwng £300 a £50,000 i helpu i dalu am gyfleustodau, yswiriant a chostau sefydlog eraill a all fod ar waith ar gyfer llogi cyfleusterau neu offer. Gall helpu clybiau i wneud addasiadau hefyd er mwyn sicrhau bod gweithgareddau'n ddiogel, fel cyflwyno system unffordd, darparu hylif diheintio dwylo a phlatfformau archebu ar-lein, neu osod arwyddion iechyd a diogelwch. Os yw Aelodau'n ymwybodol o unrhyw glybiau lleol yn eu cymunedau a all elwa ar hyn, mae manylion llawn ar gael ar wefan Chwaraeon Cymru, a byddem yn annog clybiau chwaraeon i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd ariannu sydd ar gael.

Roedd hefyd am roi gwybod i etholwyr, gan fod y pandemig yn bodoli o hyd, bod ystod o gymorth ariannol ar gael i unrhyw un sy'n cael trafferth talu'r Dreth Gyngor. Anfonwyd dros 6,000 o lythyrau yn rhoi gwybod i breswylwyr am y balansau sy'n weddill ar eu cyfrifon. Crybwyllodd fod hwn yn gyfnod heriol ac ansicr dros ben, a bod y Cyngor wedi

ceisio cydweithio â phreswylwyr, lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae ystod o opsiynau ar gael, gan gynnwys gostyngiadau, disgowntiau ac atgyfeiriadau, ac mae'n gobeithio y bydd Aelodau'n annog unrhyw un sy'n cael trafferthion i gysylltu â'r Cyngor er mwyn canfod ffordd ymlaen.

Cyhoeddodd yr Arweinydd mai cyfarfod y Cyngor heddiw fyddai cyfarfod olaf Sue Cooper, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, cyn iddi ymddeol. Cyfeiriodd at hanes nodedig y Cyfarwyddwr fel arweinydd proffesiwn mor bwysig i'r Awdurdod a Chymru; proffesiwn y bu'n rhan ohono ar hyd ei gyrfa. Bu'n angerddol iawn tuag at y cymorth a ddarperir i'r bobl fwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref ac yn ymroddedig i sicrhau bod ei chalon ym mhob un o'r penderfyniadau a wnaed o'r diwrnod cyntaf iddi ddechrau gweithio i Gyngor Bwrdeistref Ogwr, a bydd yno yn ei diwrnod olaf yn gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dechreuodd Ms Cooper ar y rheng flaen, a dangosodd yr ymroddiad hwnnw i ddinasyddion a chymunedau Pen-y-bont ar Ogwr dro ar ôl tro, nid lleiaf drwy ei phenderfyniad diweddar i ohirio ei hymddeoliad gan fod y pandemig yn cael effaith mor ddinistriol ar Ben-y-bont ar Ogwr. Crybwyllodd yr Arweinydd ei bod wedi newid ei chynlluniau a'i bod am arwain ymateb yr Awdurdod i'r argyfwng yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Diolchodd i Ms Cooper am ei gwaith arbennig.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar i'r Cyfarwyddwr am ei hymroddiad, ei phenderfyniad i gyflawni pethau a'u cyflawni'n ddiogel, a fu'n nodwedd ragorol a thrugarog. Roedd yn falch o fod yn gydweithiwr ac yn gyfaill ac, o siarad â phobl eraill yn ei phroffesiwn a'i swydd, roeddent wedi edmygu ei phroffesiynoldeb ac roedd yn ddelfryd ymddwyn i bobl eraill. Crybwyllodd y bu'n ysbrydoledig dros y 5 mlynedd diwethaf wrth arwain y Gyfarwyddiaeth drwy'r rhaglen drawsffurfio ac uno'r Awdurdod â rhanbarth iechyd newydd. Bu'r trawsnewid hwnnw'n llwyddiant mawr i Ben-y-bont ar Ogwr. Rhoddodd wybod i'r Cyngor ei bod wedi cyrraedd brig ei gyrfa drwy waith caled. Byddai'n gweld colled ar ôl Ms Cooper. Roedd yn teimlo bod y Gyfarwyddiaeth yn addas i'r diben a'r 21ain ganrif, a bod yr Awdurdod a phreswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn well am ei chyfraniad a'i thrugaredd, ac am wneud pethau'n iawn ar gyfer gofal cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru. Dymunodd ymddeoliad hir ac iach i Ms Cooper.

Ailadroddodd Arweinydd yr Wrthblaid bopeth roedd ei chydweithwyr wedi'i ddweud, a dywedodd y byddai'n gweld colled fawr ar ôl Ms Cooper. Diolchodd iddi am y ffordd broffesiynol roedd wedi cyflawni ei rôl a'r hyn yr oedd wedi'i wneud i breswylwyr Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig ei phreswylwyr mwyaf agored i niwed. Dymunodd ymddeoliad hir a hapus iawn iddi.

Diolchodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i'r Aelodau am eu sylwadau, a oedd yn drech na hi. Dywedodd y bu'n ychydig fisoedd anodd, ond bod Pen-y-bont ar Ogwr wedi dod drwyddo'n dda iawn, ac y bu'n fraint gweithio ochr yn ochr â phawb dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth dros y 36 blynedd, a diolchodd yn arbennig i'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar, cyn Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet blaenorol. Dywedodd y bu'n anodd ac yn heriol iawn ar adegau, ond bob amser yn werth chweil. Bu'n fraint bod yn rhan fach o gefnogi a gwella bywydau pobl, a'r bobl hynny sy'n fwyaf agored i niwed. Dywedodd ei bod yn falch iawn o'i phroffesiwn ac o fod yn weithiwr cymdeithasol, ac yn falch iawn o weithio i'r Cyngor, sydd ag enw da iawn. Diolchodd i bawb am eu dymuniadau da.

422. DIWEDDARIAD AR YMATEB BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR I COVID-19

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad ar yr ymateb i'r pandemig COVID-19 a'r camau sy'n cael eu cymryd tuag at adfer, ac i roi'r newyddion diweddaraf i Aelodau am y dull adfer, gan gynnwys sefydlu Panel Adfer Trawsbleidiol.

Rhoddodd wybod i'r Cyngor, er mwyn ymateb i'r pandemig COVID-19 byd-eang, ar 23 Mawrth 2020, y rhoddodd Llywodraeth y DU gyfyngiadau symud cenedlaethol ar waith er mwyn ceisio lleihau lledaenu'r coronafeirws. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi newid yn sylweddol dros y pedwar mis diwethaf, yn aml yn ymateb ar frys i newidiadau o ran amgylchiadau, arweiniad a rheoliadau. Crëwyd gwasanaethau newydd, ataliwyd rhai gwasanaethau, adleoliwyd staff a rhoddwyd arferion gweithio newydd ar waith, gan gynnwys galluogi'r rhai sy'n gallu gweithio gartref i wneud hynny. Crybwyllodd mai'r ffocws dros y pedwar mis diwethaf fu cyflwyno gwasanaethau hanfodol, yn enwedig y rhai i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ei gymunedau, a cheisio atal lledaenu'r feirws er mwyn achub bywydau. Rhoddodd wybod i'r Cyngor bod gwasanaethau wedi'u haddasu ar raddfa a chyflymder digynsail, tra rhoddwyd trefniadau llywodraethu brys ar waith. Trwy gydol y broses hon, bu un dull gan y Cyngor a gwaith partneriaeth gwell.

Tynnodd sylw hefyd at graffeg a oedd yn dangos ymateb y Cyngor i COVID-19. Amlygodd nifer yr achosion o COVID-19 yn y Fwrdeistref Sirol, ynghyd â nifer y marwolaethau.

Amlinellodd y Prif Weithredwr y camau sy'n cael eu cymryd o ran llacio'r cyfyngiadau symud yn raddol, ynghyd â'r heriau parhaus sy'n effeithio ar y Cyngor. Amlygodd yr heriau ariannol i'r Cyngor, sef y pwysau ychwanegol o ran costau, incwm a gollwyd i'r Cyngor, a'r posibilrwydd na fydd yr arbedion o £2.413m yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, gwnaed arbedion annisgwyl o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol, adeiladau a thanwydd. Dywedodd ei bod yn debygol y bydd diffyg yn y Dreth Gyngor, yn enwedig o ystyried yr oedi wrth ddechrau adfer a'r cynnydd mewn budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Rhoddodd wybod i'r Cyngor am ystod y cymorth ariannol a fu ar gael gan Lywodraeth Cymru ledled Cymru. Amlygodd y sefyllfa o ran hawliadau misol am wariant ychwanegol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, â thanwariant o £3.8m yn chwarter 1.

Amlinellodd y Prif Weithredwr y broses Ailddechrau, Adfer ac Adnewyddu a sefydlu'r Panel Adfer Trawsbleidiol. Byddai angen ailosod cyllideb a Chynllun Corfforaethol 2020/21 er mwyn ystyried yr amgylchiadau a'r blaenoriaethau diwygiedig. Amlygodd y blaenoriaethau adfer y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, ynghyd ag ymateb cydlynus i adfer. Rhoddodd wybod i'r Cyngor am yr angen i groesawu'r normal newydd, ond hefyd deall y cyfleoedd a'r risgiau. I gloi, rhoddodd wybod i'r Cyngor y bu'n cyfnod heriol hwn o 4 mis yn unigryw â newid digynsail, a bu ymateb y Cyngor yn rhagorol, gyda'r ymateb gan rai aelodau staff yn arwrol. Dywedodd fod yr ergyd economaidd yn debygol o fod yn ddifrifol, â mwy o ddiweithdra a phobl yn hawlio budd-daliadau.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor ba mor hyderus yw'r Cyngor o ran ymdopi ag ail ymchwydd mewn achosion. Rhoddodd y Prif Weithredwr wybod i'r Cyngor fod yr holl ysbytai dros dro wedi'u cadw, a bod gwasanaethau wedi'u paratoi'n well ar gyfer ail ymchwydd. Bu llai o achosion o'r haint ym Mhen-y-bont ar Ogwr o gymharu â'r ardaloedd eraill sy'n ffurfio Bwrdd Iechyd Cwm Taf, ac mae cyfarfodydd wythnosol yn cael eu cynnal â'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd Iechyd.

Diolchodd aelod o'r Cyngor i weithwyr allweddol y Cyngor am eu gwaith yn ystod y pandemig, a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith wrth brosesu atgyfeiriadau mor brydlon yn ystod y cyfnod hwn.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y Panel Adfer Trawsbleidiol a gofynnodd a fyddai trefniadau'r cyfarfodydd yn hyblyg ac yn cael eu darlledu ar y we. Roedd y Prif

Weithredwr yn rhagweld y byddai cyfarfodydd y panel yn hyblyg, y byddai'n gallu gwahodd mynychwyr ac adrodd ar ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i wneud argymhellion i'r Cabinet. Nid oedd unrhyw fwriad i ddarlledu cyfarfodydd y Panel ar y we. Crybwyllodd y byddai angen i'r panel edrych ar ailosod y gyllideb a'r Cynllun Corfforaethol er mwyn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, ac ymlaen i'r Cabinet.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

(1) yn nodi'r cyflwyniad gan y Prif Weithredwr;
(2) yn nodi'r dull a gymeradwywyd gan y Cabinet ar gyfer ymateb i'r pandemig COVID-19, a galluogi'r Cyngor i ailddechrau, adfer ac adnewyddu'r gwasanaethau a ddarperir ganddo;
(3) yn nodi sefydlu Panel Adfer Trawsbleidiol i helpu i ffurfio, llywio a chynghori'r Cabinet ar gynlluniau adfer y Cyngor.

423. CANLYNIAD Y RHAGLEN GYFALAF 2019-20 AC ADRODDIAD DIWEDDARU CHWARTER 1 2020-21

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro adroddiad i gydymffurfio â gofynion Cod Materion Ariannol ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA); rhoddodd ddiweddariad ar yr alldro cyfalaf ar gyfer 2019-20; rhoddodd ddiweddariad ar y Rhaglen Cyfalaf ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill hyd 30 Mehefin 2020; ceisiodd gymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 hyd 2029-30, ac i'r Cyngor nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill rhagamcanol ar gyfer 2020-21.

Crybwyllodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod y Cyngor, ar 20 Chwefror 2019, wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf £35.474m, a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 26 Chwefror 2020, ac a ddiwygiwyd ymhellach a'i chymeradwyo gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn i gynnwys cyllidebau a dducpwyd ymlaen o 2018-29 ac unrhyw gynlluniau a chymeradwyaethau grantiau newydd. Crybwyllodd fod y rhaglen ddiweddaraf ar gyfer 2019-20, a gymeradwywyd gan y Cyngor yn Chwefror 2020 fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, yn dod i gyfanswm o £30.137m, y daw £13.964m ohono o adnoddau CBS Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a benthyciadau, gyda'r £16.173 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro wybod i'r Cyngor na wnaed llawer o newidiadau, heblaw'r cymeradwyaethau newydd o £1.964m o ganlyniad i'r cynllun grant newydd gan Lywodraeth Cymru – sef Grant Seilwaith Hwb a'r £0.403m o gyllid a ddaethpwyd yn ôl o 20-21 o adlewyrchu'n fwy cywir y proffiliau gwario, a oedd yn dod â'r gyllideb ddiwygiedig i £32.504m. Rhoddodd wybod i'r Cyngor mai'r cyfanswm gwariant ar 31 Mawrth 2020 oedd £22.822m, a oedd yn arwain at gyfanswm tanwariant o £9.682m. Yn ystod y flwyddyn, roedd nifer o gynlluniau wedi dechrau ond nid oeddent wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, neu roeddent wedi'u symud yn gyfan gwbl i 2020-21. Roedd y rhain yn cynnwys adnewyddu Depo Tredŵr, Cryfhau Pontydd ar yr A4061 Cwm Ogwr, y Fargen Ddinesig a gwaith adnewyddu yng Nghwm Llynfi. Crybwyllodd y bu llithriant am nifer o resymau, gan gynnwys oedi o ran dechrau prosiectau oherwydd yr angen i ymgymryd ag arolygon ehangach, trafodaethau parhaus â chyrff ariannu ac oedi cyffredinol arall mewn rhaglenni. Roedd yn debygol y byddai llithriant sylweddol yn ystod 2020-21 hefyd, o ganlyniad i gyfyngiadau symud COVID-19 a'r rheoliadau dilynol yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro wybod i'r Cyngor bod angen llithriant net o £9.073 miliwn yn 2020-21, a bod y prif gynlluniau fel a ganlyn:

- £2,246,000 mewn perthynas â Datblygiad Llynfi – mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ag estyniad o 6 mis i'r benthyciad i alluogi'r Cyngor i ymgymryd â gwaith dichonolrwydd pellach
- £908,600 o gyllid ar gyfer mân waith cyfalaf sydd wedi llithro o ganlyniad i'r oedi o ran cwblhau nifer o gynlluniau
- £564,000 mewn perthynas â'r Hwb Preswyl i Blant oherwydd oedi wrth gadarnhau'r cymeradwyaeth cyllid
- £471,000 mewn perthynas â Chryfhau Pontydd. Bu oedi o ran elfennau sylweddol o'r gwaith gan y cwmni cyfleustodau ac, fel y cyfryw, mae nifer o elfennau o wariant y contract wedi'u gohirio tan yn ddiweddarach yng nghyfnod y contract diwygiedig
- £582,000 mewn perthynas â'r Hwb Menter, gan fod y prosiect wedi'i ailbroffilio a'i ail-ffurfweddu yn 2020-21
- £520,000 mewn perthynas â Thrawsffurfio Digidol tra mae'r strategaeth digidol yn cael ei datblygu, er mwyn sicrhau bod datblygu'n ystyried effeithiau COVID-19 a sut gall technoleg digidol gefnogi'r Cyngor o ran ei fodel gweithredu
- £320,000 mewn perthynas ag Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B. Mae cynlluniau newydd yn y cyfnod dichonolrwydd ar hyn o bryd
- £260,000 mewn perthynas â Neuadd y Dref Maesteg oherwydd oedi a newidiadau i broffiliau ariannu o ganlyniad i'r Cyngor yn manteisio ar gyllid grant ychwanegol yn ystod 2019-20.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro ddiweddariad ar raglen gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 ers i'r gyllideb gael ei chymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor, a oedd yn cynnwys unrhyw gynlluniau newydd a chymeradwyaethau grant. Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2020-21 yn dod i gyfanswm o £62.305m, y daw £40.313m ohono o adnoddau'r Cyngor, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf, cyfraniadau refeniw o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a benthyciadau, gyda'r £21.992 miliwn sy'n weddill yn dod o adnoddau allanol, gan gynnwys y Grant Cyfalaf Cyffredinol. Amlygodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro y sefyllfa fesul Cyfarwyddiaeth. Crynhodd y rhagdybiaethau ariannu cyfredol ar gyfer rhaglen gyfalaf 2020-21, a bod adnoddau cyfalaf yn cael eu rheoli i sicrhau'r budd ariannol mwyaf i'r Cyngor, a all gynnwys adlinio cyllid i fanteisio i'r eithaf ar grantiau'r llywodraeth.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro wybod am nifer o newidiadau i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2020-21, fel a ganlyn:

- Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B
- Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig – Dosbarthiadau Symudol
- Gosod Mannau Gwefru Cerbydau Trydanol (EVCP)
- Hwb Llety Preswyl i Blant
- Depo Bryncethin
- Hwb Menter Pen-y-bont ar Ogwr
- Canolfan Ailgylchu Cymunedol, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm, Y Pîl
- Peilot Catrefi Gwag Gorllewin y Cymoedd

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro wybod am fonitro dangosyddion ariannol a dangosyddion eraill ar gyfer 2020-21 hyd 2022-23 hefyd, ynghyd â rhai dangosyddion lleol. Bwriad y Strategaeth Cyfalaf yw rhoi trosolwg a sut mae gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, ynghyd â throsolwg o sut caiff risgiau cysylltiedig eu rheoli, a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd yn y dyfodol. Cynhwyswyd nifer o ddangosyddion darbodus, a gymeradwywyd gan y Cyngor. Yn unol â gofynion y Cod Materion Ariannol, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid sefydlu gweithdrefnau i fonitro perfformiad yn erbyn pob dangosydd ariannol blaengar a'r gofynion penodedig. Rhoddodd fanylion am y

dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2019-20, y dangosyddion amcangyfrifedig ar gyfer 2020-21 a amlinellir yn Strategaeth Cyfalaf y Cyngor, a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2020-21 ar sail y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig, sy'n dangos bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r cyfyngiadau cymeradwy.

Crybwyllodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro fod angen i'r Strategaeth Cyfalaf fonitro buddsoddiadau nad ydynt yn fuddsoddiadau rheoli'r trysorlys a rhwymedigaethau hirdymor eraill. Crybwyllodd fod gan y Cyngor bortffolio buddsoddi bresennol sydd wedi'i seilio 100% yn y Fwrdeistref Sirol, ac yn y sectorau swyddfa a diwydiannol yn bennaf. Mae ffrydiau incwm wedi'u lledaenu rhwng y buddsoddiadau gosodiad sengl ac aml-osod ar Barc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, yr ystadau diwydiannol aml-osod a'r buddsoddiadau rhent tir rhydd-ddaliadol. Cyfanswm gwerth yr Eiddo Buddsoddi ar 31 Mawrth 2020 oedd £4.635 miliwn. Rhoddodd wybod i'r Cyngor fod ganddo nifer o Rwymedigaethau Hirdymor Eraill yn y Strategaeth Cyfalaf hefyd.

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd wybod i'r Cyngor fod hwn yn gyfnod heriol iawn i'r Cyngor, a oedd wedi arwain at lithriant mewn nifer o gynlluniau. Crybwyllodd ei fod wedi gorfod defnyddio pwerau brys i ddiwygio'r rhaglen gyfalaf i awdurdodi gwariant o £1.2m i ddarparu dosbarthiadau dros dro ac ymgymryd â gwaith seilwaith ar rannau o brif adeilad yr ysgol y mae angen eu cadw, a'u cadw mewn defnydd (e.e. y neuadd a'r gegin) yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.

Roedd yn falch gan aelod o'r Cyngor nodi'r cyllid brys ar gyfer gwaith yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig, a oedd oherwydd y diffygion difrifol yng nghyflwr yr adeilad yn peri risg iechyd a diogelwch i ddisgyblion a staff. Diolchodd yr aelod i'r Cyngor ar ran disgyblion, staff a'r corff llywodraethol am ba mor gyflym yr awdurdodwyd ystafelloedd dosbarth dros dro a gwaith seilwaith.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- Yn nodi'r alldro cyfalaf ar gyfer 2019-20;
- Yn nodi diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020-21 hyd at 30 Mehefin 2020;
- Yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig;
- Yn nodi'r Dangosyddion Ariannol ar Eraill ar gyfer 2020-21.

424. ADRODDIAD GWYBODAETH I'W NODI

Rhoddodd y Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol wybod am yr Adroddiad Gwybodaeth canlynol, a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

| Teitl | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|
| Penderfyniadau Dirprwyedig Brys | 16 Gorffennaf 2020 |

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cydnabod y cyhoeddwyd y ddogfen a restrir yn yr adroddiad hwn.

425. I DDERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

**Cwestiwn gan y Cynghorydd MC Voisey i'r Dirprwy Arweinydd**

"Sawl achos llys, dirwy, gorchymyn atal cyflog ac ati, a sawl gwaith mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi defnyddio beilïaid i adennill y Dreth Cyngor heb ei thalu, a faint a adenillwyd drwy'r camau gweithredu hyn?"

**Ymateb y Dirprwy Arweinydd:**

Mae'r Dreth Gyngor yn daladwy ar bob annedd domestig yn y fwrdeistref ac mae'n daladwy o 1 Ebrill bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae pawb yn cael yr opsiwn i dalu drwy randaliadau am 10 neu 12 mis. Os caiff rhandaliad ei golli, caiff hysbysiad atgoffa ei anfon yn gofyn am y taliad, a bydd y broses adennill yn dechrau. Crynhowyd y broses ar ffurf siart llif.

Wedi i'r hysbysiad terfynol gael ei anfon, mae talwr y Dreth Gyngor yn colli'r hawl i dalu drwy randaliadau, a daw'r balans sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn yn daladwy.
- Os caiff y taliad llawn ei dderbyn, ni chymerir unrhyw gamau pellach
- Os caiff rhan o'r taliad neu ddim ohono ei (d)derbyn, caiff gwŷs ei dderbyn ynghyd â chostau ar gyfer y balans sy'n weddill

Wedi i wŷs gael ei anfon, mae talwr y Dreth Gyngor yn colli'r hawl i dalu drwy randaliadau, a daw'r balans sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn yn daladwy.
- Os caiff y taliad llawn ei dderbyn, gan gynnwys costau, cyn y dyddiad llys, ni chymerir unrhyw gamau pellach
- Os caiff rhan o'r taliad ei derbyn cyn y dyddiad llys, ceir Gorchymyn Atebolrwydd gan y Llys Ynadon ar gyfer y balans sy'n weddill
- Os na chaiff taliad ei dderbyn cyn y dyddiad llys, ceir Gorchymyn Atebolrwydd gan y Llys Ynadon ar gyfer y balans sy'n weddill

Ar hyn o bryd, ar ôl cael Gorchymyn Atebolrwydd gan y Llys Ynadon, mae'r camau canlynol ar gael i ni er mwyn adennill dyled y Dreth Gyngor:-

| **Cam gweithredu** | **Sylwadau** |
|---|---|
| Cytundeb swyddfa | Os bydd rhywun yn mynd i gytundeb ac yn parhau i wneud taliadau, ni chymerir unrhyw gamau pellach. Fodd bynnag, os caiff cytundeb ei dorri, byddant yn cael llythyr i ddechrau yn gofyn iddynt sicrhau bod eu cytundeb yn gyfredol. Os na chaiff hyn ei wneud, defnyddir dull arall i adennill y balans, a all gynnwys unrhyw rai o'r dulliau sydd ar gael, gan ddibynnu ar ba wybodaeth sydd wedi'i dal ar y cyfrif penodol. |
| Atafaelu enillion | Dyma lle mae'r balans sy'n weddill yn cael ei gasglu drwy gyflog unigolyn ar sail ei incwm net. Dim ond 2 orchymyn atafaelu enillion sy'n gallu bod ar waith ar unrhyw adeg. Llywodraeth ganolog sy'n pennu'r swm i'w ddidynnu gan y cyflogwr, a bydd yn parhau nes i'r ddyled gael ei thalu'n llawn neu nes i'r cyflogai roi'r gorau i weithio. Yna, mae'r cyflogwr yn gyfrifol am anfon unrhyw ddidyniadau'n uniongyrchol atom er mwyn clirio'r ddyled. Os bydd unigolyn yn gadael cyflogaeth, caiff llythyr ei anfon yn gofyn iddo/iddi gysylltu â ni i wneud trefniadau amgen i glirio'r ddyled. Fodd bynnag, os na fydd yn cysylltu â ni ac os nad oes dull amgen ar gael, gellir pasio'r ddyled i asiant gorfodi i'w chasglu, a fydd yn arwain at gostau pellach. |
| Atafaelu budd-daliadau | Dyma lle mae'r balans sy'n weddill yn cael ei ddidynnu'n uniongyrchol o fudd-daliadau unigolyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl gwneud y didyniadau hyn o fudd-daliadau penodol yn unig, a chaiff y swm i'w ddidynnu ei bennu gan lywodraeth ganolog gan ddibynnu ar y budd-dal mae'r unigolyn yn ei gael, a dim ond 1 gorchymyn atafaelu budd- |

daliadau sy'n gallu bod ar waith ar unrhyw adeg. Gan fod unigolyn sy'n cael budd-daliadau ar incwm isel, mae swm y didyniadau'n gymharol isel, felly mae'n cymryd amser sylweddol i'w talu. Os nad yw unigolyn yn cael budd-dal y gellir ei atafaelu mwyach, caiff llythyr ei anfon yn gofyn iddo/iddi gysylltu â ni i wneud trefniadau amgen. Fodd bynnag, os na fydd yn cysylltu â ni ac os nad oes dull amgen ar gael, gan ddibynnu ar werth y balans sy'n weddill, gellir pasio'r ddyled i asiant gorfodi i'w chasglu, a fydd yn arwain at gostau pellach.

**Atafaelu nwyddau drwy Asiantau gorfodi**

Fel arfer, defnyddio asiantaeth orfodi yw'r gobaith olaf pan nad oes unrhyw ddull adennill arall ar gael i ni. Pan fydd dyled yn cael ei phasio i'r asiantau gorfodi, bydd llythyr cychwynnol yn cael ei anfon at y dyledwr. Bryd hynny, bydd cost o £75 yn cael ei chodi; fodd bynnag, gall y dyledwr ddod i drefniant â'r asiantau gorfodi i glirio'r ddyled heb iddynt orfod ymweld â'r eiddo. Cyn belled ag y glynir wrth y trefniant hwn ac y caiff y ddyled ei thalu'n llawn, ni chymerir unrhyw gamau pellach ac ni fyddai angen i'r asiant gorfodi ymweld â'r eiddo. Fodd bynnag, os caiff y llythyr ei anwybyddu, bydd yr asiant gorfodi'n ymweld â'r eiddo gyda'r bwriad o gasglu cyfanswm y balans sy'n weddill, a daw cost ychwanegol o £235 yn daladwy. Gall ffi ychwanegol fod yn daladwy hefyd, gan ddibynnu ar werth y ddyled. Sylwer fod strwythur y ffioedd wedi'i bennu mewn deddfwriaeth dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 – Rheoliadau Cymryd Rheolaeth Dros Nwyddau (Ffioedd) 2014 – ac felly nid ydynt yn agored i drafodaeth.

**Gorchymyn talu**

Os caiff dyled ei dychwelyd gan yr asiantau gorfodi, gan nad oeddent yn gallu ei chasglu, os yw'r dyledwr yn berchen ar yr eiddo, gellir rhoi gorchymyn talu ar yr eiddo os yw'r ddyled sy'n weddill ar yr eiddo hwnnw dros £1,000. Mae hyn yn gofyn i Adran Gyfreithiol y Cyngor wneud cais am orchymyn talu dros dro gan y Llys Sirol. Yna, bydd yr Adran Gyfreithiol yn ysgrifennu at y dyledwr i roi gwybod y cafwyd gorchymyn talu dros dro, ac yn rhoi gwybod am y dyddiad y gofynnir am y tâl terfynol, oni bai y caiff ei dalu'n llawn. Os caiff y ddyled ei thalu'n llawn, ynghyd â'r costau cyfreithiol yr aed iddynt, ni chymerir unrhyw gamau pellach. Os na chaiff y ddyled ei thalu'n llawn, gofynnir am y tâl terfynol gan y llys a chaiff ei gofrestru yn erbyn yr eiddo ar y gofrestrfa tir. Dim ond pan gaiff y ddyled ei thalu'n llawn, ynghyd ag unrhyw gostau yr aed iddynt, y caiff y tâl ei dynnu oddi ar gofnodion y gofrestrfa tir. Caiff y math hwn o gam adennill ei ddefnyddio mewn achosion cyfyngedig iawn yn unig, ac mae'n effeithiol pan fydd eiddo'n cael ei werthu, gan nad yw'r perchnogion newydd eisiau prynu eiddo sydd â thâl arno. Os yw'r eiddo'n wag, gall y Cyngor wneud cais i'r llys am orchymyn gwerthu.

**Methdaliad**

Gellir ond defnyddio'r math hwn o gam adennill os yw ddyled y Dreth Gyngor yn fwy na £5,000, a byddai ond yn

cael ei ddefnyddio pe byddai asedau talwr y Dreth Gyngor yn fwy na'r swm sy'n daladwy. Caiff gwrandawiad methdalu ei drefnu yn y Llys Sirol, a dylid gwneud pob ymdrech i'w fynychu.

Cyn 1 Ebrill 2019, roedd y bygythiad o fynd i'r carchar yn gorfodi talwyr y Dreth Gyngor i dalu eu costau; fodd bynnag, er 1 Ebrill 2019, diddymwyd y gosb o draddodi am beidio â thalu'r Dreth Gyngor, gan ei gwneud yn anoddach casglu dyledion gan ddyledwyr trafferthus. Fodd bynnag, pan fo achosion traddodi wedi dechrau cyn 1 Ebrill 2019, gellir parhau i fynd i'r afael â'r rhain.

Gallai un talwr y Dreth Gyngor fod â sawl gorchymyn atebolrwydd â dyled yn daladwy ar bob un ohonynt dros nifer o flynyddoedd.

Gellid dechrau casglu un gorchymyn atebolrwydd drwy atafaelu enillion; fodd bynnag, gallai'r dyledwr ddod yn ddi-waith a gwneud cytundeb swyddfa, ond methu â chadw at delerau'r cytundeb, a byddai'r ddyled yn cael ei phasio i'r asiantau gorfodi. Mae hyn yn dangos y gellid defnyddio sawl dull adennill ar orchymyn atebolrwydd unigol er mwyn casglu'r ddyled sy'n weddill, a gall cymryd blynyddoedd i'w chasglu'n llawn.

Mae gennym nifer o gyfrifon y dreth gyngor lle'r ydym yn casglu dyledion ar fwy nag un gorchymyn atebolrwydd ar y tro, lle mae pob un yn cael ei chasglu drwy ddull adennill gwahanol. Gallai hyn fod ar y cyd â rhandaliadau'r flwyddyn gyfredol hefyd.

Nid yw'r system TGCh refeniw rydym yn ei defnyddio yn cynnig dadansoddiad o faint a gasglwyd drwy bob dull adennill, gan y gallai pob gorchymyn atebolrwydd fod wedi defnyddio sawl dull adennill gwahanol dros amser, â thaliad rhannol drwy bob dull adennill.

Hefyd, nid yw'n bosibl nodi taliadau a wnaed mewn perthynas ag atafaelu enillion drwy'r system derbynebau arian parod a ddefnyddir gan y Cyngor.

Mae'r wdurdod hwn wedi ceisio casglu cymaint o ddyledion ag y bo modd erioed, a bydd ond yn anfon dyled at asiantau gorfodi pan fetho popeth arall, gan ein bod yn ceisio osgoi costau pellach i'r dyledwr.

Amlinellwyd tabl yn dangos nifer y gorchmynion atebolrwydd a gafwyd gan y Llys yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 a hyd yma yn 2019/20. Mae hefyd yn cynnwys nifer a gwerth y cyfrifon a anfonwyd at yr asiantau gorfodi am yr un cyfnod, ynghyd â'r incwm a gafwyd ganddynt yn ystod yr un cyfnod. Fodd bynnag, nid yw'r swm a gafwyd ar gyfer y cyfnod yn ymwneud â'r cyfrifon a anfonwyd yn ystod yr un cyfnod, o reidrwydd, gan y gallant fod ar gyfer dyledion a anfonwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Gallai atafaelu enillion ac asiantau gorfodi fod yn ymwneud â dyledion o flynyddoedd blaenorol, ac nid y rhai hynny y cafwyd Gorchmynion Atebolrwydd ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn yn unig. Hefyd, gellid eu hanfon ar gyfer yr un dull adennill fwy nag unwaith y flwyddyn e.e. gellir anfon dyled at yr asiantau gorfodi, a all gael ei dychwelyd atom gan nad ydynt yn gallu olrhain y dyledwr. Yna, os byddwn yn dod o hyd i gyfeiriad anfon ymlaen, gellir anfon y ddyled yn ôl atynt ar gyfer yr un gorchymyn atebolrwydd. Felly, bydd un gorchymyn atebolrwydd yn dangos fel 2 orchymyn atebolrwydd a anfonwyd at yr asiantau gorfodi. Yn yr un modd, os caiff gorchymyn atafaelu enillion ei anfon a bod yr unigolyn yn gadael y cyflogwr penodol hwnnw, ond yn dechrau gweithio rywle arall, bydd gorchymyn atafaelu enillion newydd yn cael ei anfon at y cyflogwr newydd, ac felly'n dangos fel un gorchymyn atebolrwydd â 2 orchymyn atafaelu enillion.

Ar hyn o bryd, y gyfradd casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn yw 95.1%, sy'n gyfwerth â chyfanswm o £78,993,469.70 a gasglwyd hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol hon, a'r ôl-ddyledion a gasglwyd ar gyfer blynyddoedd blaenorol yw 31.6%, sy'n gyfwerth â gostyngiad o £1,808,042.17 i'r cyfanswm ôl-ddyledion o gymharu â dechrau'r flwyddyn.

Mae'r isadran refeniw yn ceisio gwneud gwelliannau i'r system yn y flwyddyn ariannol newydd fel rhan o'r rhaglen awtomatiaeth/digidoleiddio, er mwyn gwella effeithlonrwydd a chasglu. Gyda'r modiwlau hyn, bydd yr isadran refeniw yn gallu awtomeiddio mwy o'r prosesau â llaw presennol, a fydd yn rhyddhau amser i'r gwasanaeth allu canolbwyntio ar adennill y dyledion anoddach a mwy llafurus. Po gyflymaf yw'r broses, y mwyaf tebygol ydyw y caiff y ddyled ei chasglu. Bydd awtomeiddio'r prosesau hyn yn arwain at amseroedd ymateb ac ymgysylltiad cynt â chwsmeriaid, cyfraddau casglu gwell ac incwm i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd.

Yn ei gwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Voisey ba gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i wella cyfradd gasglu'r Dreth Gyngor pan nad yw preswylwyr yn talu'r Dreth Gyngor. Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd wybod i'r Cyngor bod nifer yr achosion lle nad yw'r Cyngor yn cael ymateb gan breswylwyr ac mae'n gwysio preswylwyr nad ydynt yn talu'r Dreth Gyngor yn isel. Dywedodd y byddai swyddogion yn gweithio tuag at gyflawni cyfradd gasglu o 98%. Rhoddodd y Swyddog Adran 151 wybod i'r Cyngor y byddai'n rhoi gwybod i Aelodau am gyfradd gasglu'r Dreth Gyngor ar ddiwedd y flwyddyn.

Holodd aelod o'r Cyngor am effaith gadarnhaol dileu'r Dreth Gyngor ar dai gwag. Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd wybod i'r Cyngor fod dileu'r Dreth Gyngor wedi galluogi ailddefnyddio 866 o dai a oedd yn wag yn flaenorol. Roedd adeiladu tai newydd yn y Fwrdeistref wedi creu £1.5m ychwanegol yn y Dreth Gyngor.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y cynllun ffyrlo yn dod i ben, a gofynnodd a ellid cynnal ymarferion modelu data i gysylltu cofnodion y Dreth Gyngor ag asiantaethau gwirio credyd er mwyn helpu preswylwyr a all ei chael hi'n anodd talu'r Dreth Gyngor. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y byddai'n fodlon edrych ar hyn. Dywedodd y byddai cyfraddau casglu'n effeithio ar awdurdodau ledled Cymru, ac roedd yn ddiolchgar am y cymorth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd A Hussain i'r Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar**

Mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig bod COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar weithwyr iechyd proffesiynol o gefndiroedd ethnig. A allai'r Aelod Cabinet sicrhau i ni fod pob gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gweithio yn Awdurdod Iechyd Cwm Taf Morgannwg, gan gynnwys ein cartrefi gofal, wedi cael asesiad risg fel mesur rhagofalus, a oedd yn cynnwys eu hethnigrwydd fel ffactor risg, ynghyd â'u hoedran, pwysau, cyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, anabledd a beichiogrwydd, a beth ydym wedi'i ddysgu?

**Ymateb yr Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar**
Bu Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn defnyddio offeryn asesu risg safonol sydd ar gael i'r holl staff. Targedwyd yr offeryn asesu ar gyfer staff duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a lle y nodir risg, mae rheolwyr yn addasu'r gweithle neu'r patrwm gwaith neu, os nad yw'n glir, gwneir atgyfeiriad i Iechyd Galwedigaethol. Os oes gan y Cynghorydd Hussain bryder penodol am unigolyn neu leoliad lleol, byddwn yn fodlon derbyn yr atgyfeiriad hwnnw a'i gyfeirio at y gweithiwr iechyd proffesiynol priodol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu asesiad risg y gweithlu i gynorthwyo staff yn y gwaith, a sicrhau y gall unrhyw aelod staff a fu i ffwrdd o'r gwaith

ddychwelyd yn ddiogel ac y gellir gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol. Yn ogystal, bu'r Cyngor yn cynnal hyfforddiant rheoli heintiau drwy gydol y pandemig, a blaenoriaethwyd lleoedd i staff duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Bu Iechyd yr Amgylchedd, y Bwrdd Iechyd ac AGC yn cefnogi'r sector gofal i reoli heintiau hefyd.

Yn ei gwestiwn atodol, cyfeiriodd y Cynghorydd Hussain at asesiad risg y gweithlu, a gofynnodd a ddysgwyd unrhyw wersi a pha bryd y byddai'r adroddiad ar gael. Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar wybod i'r Cyngor fod y pecyn offer a gyflwynwyd wedi canolbwyntio'n wreiddiol ar gyflogeion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio mewn lleoliadau clinigol. Erbyn hyn, mae wedi'i ddiwygio gan Lywodraeth Cymru a gellir ei ddefnyddio mewn unrhyw weithle, a bu'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r pecyn offer ac yn cyflwyno matrics sgorio i gynorthwyo cyflogeion i ailgydio yn eu dyletswyddau. Wrth i'r pecynnau offer gael eu cyflwyno'n ehangach, dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n holi pryd y bydd yr adroddiad ar gael.

Gofynnodd aelod gwestiwn atodol yn ymwneud â'r arolwg staff diweddar, a ph'un a oedd yn fodlon bod yr holl staff sy'n ystyried eu hunain yn bobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi'i lenwi. Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar wybod i'r Cyngor ei fod yn fodlon â'r ymatebion a bod pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi amlygu eu hunain yn yr arolwg, ac y byddai'n anfon copi o'r adroddiad at Aelodau.

Gofynnodd aelod gwestiwn atodol yn ymwneud ag annog partneriaid i ddefnyddio'r pecyn offer. Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Help Cynnar wybod i'r Cyngor fod y pecyn offer yn cael ei ddefnyddio'n ehangach erbyn hyn, a'i fod wedi'i ddatblygu â'r undebau llafur, a oedd wedi cytuno â'r broses ar gyfer aelodau staff yn llenwi'r pecynnau offer. Dywedodd fod Bwrdd Iechyd Cwm Taf ar y blaen o ran pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r risgiau, nid yn unig i staff BAME ond preswylwyr BAME hefyd.

426. HYSBYSIAD O GYNNIG A GYNIGIWYD GAN Y CYNGHORYDD R YOUNG

Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd R Young

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod y dystiolaeth wyddonol aruthrol o batrymau tywydd cyfnewidiol, fel y dangoswyd yn ddiweddar gan y glawiad a'r llifogydd digynsail ar lefel leol ac ar draws y DU, ac mae o'r farn bod hyn yn dystiolaeth bellach o gynhesu byd-eang. Felly, mae'n credu'n gryf bod argyfwng hinsawdd yn bodoli erbyn hyn ac, fel y cyfryw, mae'n galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i roi'r canlynol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:
a. y pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn garbon niwtral
b. lefelau adnoddau ar raddfa i ymateb i'r heriau a wynebir, a phrosesau i fanteisio ar yr adnoddau hynny er mwyn gallu cymryd camau cyn gynted â phosibl
i) Sefydlu dulliau ymgysylltu priodol i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol
ii) Cynnal adolygiad ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o'r camau cyfredol i ymateb i'r argyfwng hinsawdd
iii) Datblygu Strategaeth Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, a chynllun gweithredu â blaenoriaethau sy'n amlinellau camau tymor byr, canolig a thymor hir.

Eiliwyd yr Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd CE Smith.

Cynigiwyd diwygiad i'r Hysbysiad o Gynnig gan y Cynghorydd R Penhale Thomas, a eiliwyd gan y Cynghorydd N Clarke, y dylid ychwanegu'r geiriau "Cyngor Bwrdeistref

Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyhoeddi argyfwng hinsawdd" ar ddechrau'r Hysbysiad o Gynnig.

Derbyniwyd y diwygiad gan y Cynghorydd Young.

PENDERFYNWYD: Bod yr Hysbysiad o Gynnig yn cael ei gymeradwyo.

427. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:48